



**Wales Centre for Public Policy**  
**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

# **Cynllunio ar gyfer adferiad Economaidd a Chymdeithasol ar ôl y pandemig Coronafeirws:**

## **Atodiad 1: Adferiad Gwyrdd**

**Dan Bristow, Manon Roberts, Jack Price**  
Gorffennaf 2020

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisi a gwella gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfeirio gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi i gyfuno a chyflwyno'r dystiolaeth bresennol a chanfod unrhyw fylchau lle mae angen gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar lywodraeth ond yn cydweithio'n agos â llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd am sut i ateb heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau eraill sydd wedi eu datganoli. Mae'n:

- Cynorthwyo Gweinidogion Llywodraeth Cymru i adnabod, casglu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i oleuo a gwella polisi;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i ganfod, cynhyrchu, gwerthuso a chymhwysu tystiolaeth am beth sy'n gweithio at heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; a
- Defnyddio ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth oleuo a gwella'r broses o lunio polisi a gwella gwasanaethau cyhoeddus, a chyfrannu at theorïau ar lunio a gweithredu polisi.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymhlith ymchwilyr i gyfrannu at ymchwil polisi perthnasol sy'n cael effaith ar lawr gwlad.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan yn <https://www.wcpp.org.uk/cy/>

## Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae'r brifysgol yn un uchelgeisiol ac arloesol gyda'i golygon ar wneud cysylltiadau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o sefydliad Ymchwil ac Arloesi'r Deyrnas Unedig (UKRI), sefydliad newydd sy'n dod â'r saith cyngor ymchwil yn y DU, ynghyd ag Innovate UK a Research England, at ei gilydd i gynyddu cyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau fel bod ymchwil ac arloesi'n gallu ffynnu.



**Llywodraeth Cymru** yw'r llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru ac mae'n gyfrifol am feysydd allweddol yn ymwneud â bywyd cyhoeddus gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	Error! Bookmark not defined.
<b>Bord gron 1</b>	<b>4</b>
<b>Trosolwg</b>	Error! Bookmark not defined.
<b>Diffinio'r problemau ac atebion posibl</b>	Error! Bookmark not defined.
<b>Deall a siapio newidiadau ymddygiadol</b>	Error! Bookmark not defined.
<b>Buddsoddi i adfer</b>	Error! Bookmark not defined.
<b>Cyfranogwyr</b>	<b>7</b>
<b>Bord gron 2</b>	<b>9</b>
<b>Trosolwg</b>	Error! Bookmark not defined.
<b>Newid ymddygiad</b>	Error! Bookmark not defined.
<b>Ymatebion polisi</b>	Error! Bookmark not defined.
<b>Ymatebion lleol, pobl yn gyntaf sydd o fudd i'r gymuned</b>	Error! Bookmark not defined.
<b>Cyfranogwyr</b>	<b>13</b>

# Cyflwyniad

Yn yr atodiad hwn, cyflwynir casgliadau dau gyfarfod bord gron o arbenigwyr a alwyd ym Mai 2020 gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd i ystyried sut i sicrhau adferiad gwyrdd ar ôl y pandemig Coronafeirws.

Comisiynwyd yr atodiad a'r adroddiad cysylltiedig i helpu i gyfrannu at gynllunio gan Lywodraeth Cymru, ond rydym yn gobeithio y byddant yn ddefnyddiol hefyd i wasanaethau cyhoeddus ac i sefydliadau eraill sy'n datblygu eu strategaethau eu hunain ar gyfer ailgychwyn ac adfer.

## Bord gron 1

Y cais i arbenigwyr a gymerodd ran yn y cyfarfod bord gron cyntaf oedd cynghori ar sut i sicrhau adferiad gwyrdd ar ôl y pandemig Coronafeirws fel y bydd Cymru'n cyflawni ei hymrwymadau i sicrhau cynaliadwyedd ac yn parhau i ymateb i ofynion o ran y newid yn yr hinsawdd heb waethygu anghydraddoldeb economaidd.

## Trosolwg

Mae effeithiau'r pandemig yn parhau i'w hamlygu eu hunain ac mae llawer o ansicrwydd o hyd, ond hon yw'r adeg briodol i ofyn pa fath o gymdeithas rydym am weld ar ei ôl. Mae gweithredwyr a sefydliadau allweddol o gwmpas y byd yn rhannu diddordeb Llywodraeth Cymru mewn sicrhau bod yr adferiad yn hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch. Mae hyn yn awgrymu bod cyfle ar gael yn y cyfnod hwn, ond bydd angen gweithredu gan Lywodraeth i fanteisio arno.

Bydd disgwrs cyhoeddus yn chwarae rhan allweddol mewn siapio sut bydd cymdeithas yn dod allan o'r argyfwng hwn. Bydd yn siapio'r ffordd rydym yn gweld ac yn deall yr argyfwng a'r ymateb 'priodol' iddo. Gellir cyffelybu'r argyfwng presennol i'r risgiau a heriau y mae cymdeithas yn eu hwynebu wrth geisio ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnig cyfle i ddiffinio'r disgwrs am y pandemig mewn termau a fyddai'n helpu i gefnogi uchelgais Llywodraeth am greu Cymru 'wyrddach'.

Mae'n rhy fuan i ddweud a geir newidiadau tymor hir yn ymddygiadau unigolion a chymdeithas, ond mae galluedd gan y Llywodraeth o ran pennu beth fydd y newidiadau hyn. Ymddygiadau teithio yw un enghraifft o hyn. Nid yw'n glir, er enghraifft, sut bydd patrymau cymudo yn newid ond, ar gyfer rhai sectorau, sefydliadau ac unigolion, gallai'r Llywodraeth gymryd camau i 'gloi i mewn' rai o'r newidiadau a ddaeth yn sgil yr argyfwng.

Mae'n bwysig bod unrhyw gymorth gan lywodraeth i adfer yr economi yn ategu amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol. Ond dylai gael ei seilio hefyd ar gynllun tymor hwy ar gyfer economi Cymru sy'n adlewyrchu uchelgeisiau'r Llywodraeth, ac sy'n adlewyrchu rôl y wladwriaeth mewn siapia marchnadoedd a sicrhau, hyd y gellir, fod Cymru yn elwa o'r gwerth a gaiff ei greu.

## Diffinio'r problemau ac atebion posibl

Mae'r ffordd o ddeall yr argyfwng, a'r goblygiadau o hynny ar gyfer y dyfodol, yn gyfnewidiol iawn o hyd. Bydd naratifau'n cystadlu â'i gilydd ac, yn gysylltiedig â'r rhain, bydd gwahanol ddyheadau ar gyfer y dyfodol ledled Cymru a gweddill y DU, a thrwy'r byd.

Bydd awydd i ddychwelyd i'r 'drefn arferol' ar ôl y newidiadau digyffelyb ym mywydau pobl, ac ofn o bosibl o geisio newidiadau sylfaenol mewn ymateb i'r argyfwng. Er hynny, roedd cyfranogwyr wedi nodi bod rhai o nodweddion yr argyfwng presennol yn fanteisiol o bosibl wrth geisio cefnogaeth i 'adferiad gwyrdd', yn benodol:

- Teimlad bod diffyg cynllunio tymor hir a diffyg cynllunio cyffredinol mewn llywodraethau, a amlygwyd yn y diffyg paratoi at yr argyfwng a diffyg cadernid yr ymateb iddo;
- Amlygu anghydraddoldebau presennol: yn amgylchiadau unigolion, yn yr effeithiau gwahaniaethol yn sgil yr argyfwng, ac yn y gwerth y mae cymdeithasau'n ei weld mewn rhai mathau o waith;
- Parodrwydd i dderbyn ymyrraeth ar raddfa fawr gan y wladwriaeth / sector cyhoeddus mewn cymdeithas a'r economi – mae ymyriadau a oedd yn ymddangos yn anghredadwy ddau fis yn ôl wedi cael eu normaleiddio;
- Diddordeb o'r newydd mewn gwyddoniaeth ac arbenigedd, ac yn y parch tuag atynt.

Dadleuwyd bod y cyd-destun presennol yn rhoi'r gallu i ddiffinio galwadau am weithredu ar newid hinsawdd yn nhermau gweithredu i osgoi argyfyngau yn y dyfodol. Hyd yn hyn, un her a wynebwyd oedd y methiant cyffredinol i ddychmygu pa fath o beth fyddai 'argyfwng digyffelyb'. Mae'r profiad o'r pandemig Coronafeirws a'i effeithiau yn brofiad uniongyrchol o'r hyn y byddai argyfwng o'r fath yn gallu ei olygu.

Os bydd y Llywodraeth yn dewis diffinio'r 'her' yn nhermau tegwch a pharodrwydd (h.y. gweithredu i osgoi argyfwng hinsawdd), roedd cyfranogwyr yn dadlau bod angen i'r Llywodraeth gynnig atebion er mwyn i hynny lwyddo; nid yw galw am weithredu'n ddigon. Mae arolygon barn yn dangos bod pobl am wneud eu rhan i ymateb i'r newid hinsawdd a gofalu am yr amgylchedd naturiol. Bydd yn bwysig egluro ym mha ffordd y gall y cyhoedd gyfrannu. Yn yr un modd, mae angen i'r Llywodraeth fod yn barod i egluro sut mae'n bwriadu gweithredu – pa 'atebion' y mae am eu ceisio.

# Deall a siapio newidiadau ymddygiadol

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriwyd at nifer o newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad sydd wedi'u hysgogi gan y pandemig a'r cyfyngiadau symud, yn cynnwys: mwy o bobl yn siopa'n lleol; mwy o werthfawrogiad o fannau gwyrdd ymysg y cyhoedd; a llai o allyriadau o deithio o ganlyniad i'r cynnydd yn y niferoedd sy'n gweithio gartref. Ar y llaw arall, mae arolygon barn yn awgrymu ei bod yn bosibl y bydd pobl yn amharod i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar ôl llacio'r cyfyngiadau presennol.

Roedd consensws ymysg y grŵp fod arwyddion cynnar y gallai rhai newidiadau ymddygiadol fod yn barhaol ond ei bod yn rhy gynnar yn yr argyfwng i fod yn sicr o hynny. Mae'r Llywodraeth yn gallu dylanwadu ar y graddau y bydd ymddygiadau penodol yn ymwreiddio, os byddant o gwbl, ond bydd hyn yn galw am ymateb ystwyth i ddatblygiadau.

Yn y tymor byr, mae'n glir y bydd yn bwysig tawelu meddwl y cyhoedd ynghylch defnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Dros y tymor hwy, dylid hefyd ystyried sut i ddelio â'r rhwystrau strwythurol a'r costau gwahaniaethol am newid: gall y ddau beth hyn gyfyngu ar allu pobl i niwed. Dadleuwyd hefyd, er bod angen darbwylllo'r cyhoedd o werth newid, na fydd hyn yn ddigon os na chynigir 'ateb' neu ddewis arall yn lle ymddygiad presennol, neu os nad yw'r hyn a ofynnir gan y cyhoedd yn ymddangos yn ddigon perthnasol i'r broblem y mae'n ceisio ei datrys.

## Buddsoddi i adfer

Oherwydd y cyfyngiadau ar bwerau cyllidol y Llywodraeth, bydd angen iddi geisio dylanwadu ar Lywodraeth y DU, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac ystyried sut bydd yn gallu sicrhau neu ysgogi ffynonellau cyllid a buddsoddi eraill. Nodwyd ei bod yn bwysig ystyried beth mae llywodraethau'n rhoi'r gorau i wario arno, yn ogystal â ble maent yn cynyddu eu gwariant, wrth drafod buddsoddi i adfer.

Pan ofynnwyd am awgrymiadau am gymorth ychwanegol neu ymyrraeth mewn sectorau mewn ymateb i'r argyfwng, heblaw'r syniadau am feysydd buddsoddi sydd yn y papurau cefndir, cyfeiriodd cyfranogwyr at yr angen i feddwl am unrhyw 'amodau' y gellid eu gosod.

Roedd cyfranogwyr wedi cynnig syniadau amrywiol am y ffordd y gall ac y dylai llywodraethau fod yn fwy ymyrgar yn eu hagwedd at adfer ar ôl y pandemig. Mae'r heriau mewn perthynas â PPE yn yr argyfwng presennol wedi amlygu'r rhan y mae llywodraethau'n ei chwarae mewn siapio marchnadoedd. Gellir defnyddio prosesau caffael a chymorth i ddiwydiannau / busnes i feithrin y galw ac i feithrin y diwydiannau a'r rhwydweithiau cyflenwi sydd eu hangen i ateb y galw hwn. Dylid canolbwyntio ar y marchnadoedd hynny y gwyddom eu bod yn angenrheidiol ond y gwyddom na fydd y sector preifat yn gallu eu cynnal fel arall.

A dylid seilio hyn ar asesiad o asedau strategol Cymru, a gweledigaeth hirdymor ar gyfer economi Cymru.

Cynigiwyd nifer o awgrymiadau penodol am feysydd sy'n haeddu eu hystyried ymhellach:

- Lleihau'r defnydd o garbon wrth gynhyrchu dur: ceisio cymell arloesi (e.e. defnyddio ffwrneisi trydan) ac adeiladu clwstwr diwydiannol i gynnal hyn.
- Newidiadau mewn defnydd tir: buddsoddi mewn sgiliau ar gyfer newid defnydd tir a defnyddio cymorthdaliadau amaethyddol i hybu newid o ffermio defaid a chig eidion at ailgoedwigo.
- Mwy o fuddsoddi mewn ynni gwynt ar y tir
- Ymrwmo i brynu cynhyrchion di-garbon
- Safonau di-garbon ar gyfer adeiladu tai newydd

Heblaw hyn, codwyd pwynt mwy cyffredinol ynghylch sicrhau bod Cymru'n gystadleuol drwyddi draw mewn marchnadoedd yn y DU, a'i bod hefyd yn cyfrannu at gystadleurwydd yr UE o'i gymharu ag UDA a Tsieina. Cynigiwyd cynhyrchu llaeth fel enghraifft o'r ffordd y mae 'gwerth ychwanegol' y cynhyrchion a gynhyrchir yng Nghymru (h.y. drwy gynhyrchu cynhyrchion llaeth yn hytrach na'r llaeth ei hun) yn cael ei greu y tu allan i Gymru mewn llawer achos. Felly, wrth geisio gwneud Cymru'n fwy cystadleuol, byddai angen canolbwyntio ar greu gwerth a chyflogaeth, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddiwydiannau neu wasanaethau 'traddodiadol'. Byddai'r argyfwng presennol yn gallu hybu ymdrechion i greu gwerth yng Nghymru e.e. drwy arbrofi â digideiddio mewn addysg, neu arloesi mewn seiberddiogelwch. Pwysleisiwyd nad oedd yn ddigon bod y datblygiadau newydd yn digwydd yng Nghymru, os yw'r diwydiannu'n digwydd mewn lle arall wedyn. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth y byddai gweledigaethau hirdymor o'r fath ar gyfer gweithredu o'r brig i'r gwaelod yn galw am gynnydd mawr mewn cyllid.

Byddai gweledigaethau hirdymor o'r fath yn galw am ffocws strategol. Awgrymwyd y byddai cynlluniau buddsoddi wedi'u seilio ar genhadaeth yn hytrach na diwydiannau penodol yn fwy addas i sicrhau adferiad gwyrdd. Byddai adferiad seiliedig ar genhadaeth yn hybu arloesi ar sail yr heriau a nodwyd, mewn ffordd sy'n caniatáu arloesi o'r gwaelod i fyny yn hytrach nag o'r brig i'r gwaelod. Byddai hyn yn gyson hefyd â newid gan lywodraeth o gyflawni rôl 'trwsio marchnadoedd' at greu neu siapio marchnadoedd dymunol (lle mae rhan i'w chwarae gan wasanaethau cyhoeddus – gweler uchod), er mwyn ychwanegu'r gwerth mwyaf posibl.

# Cyfranogwyr

**Cadeirydd:** Jeremy Miles

*Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru  
(yn gyfrifol am waith adfer at y dyfodol)*

**Yr arbenigwyr a gymerodd ran:**

Yr Athro Gustaf Arrhenius

*Cyfarwyddwr Athrofa Astudiaethau'r Dyfodol ac athro athroniaeth ymarferol*

Dr George Dibb

*Pennaeth Strategaeth Ddiwydiannol ac Ymgysylltu ar Bolisi yn UCL*

Lowri Evans

*Gynt o swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dros y Farchnad  
Fewnol, Diwydiant, Entrepreneuriaeth a Busnesau Bach a Chanolig eu Maint*

Dr Miatta Fahnbulleh

*Prif Weithredwr y New Economics Foundation*

Dr Rebecca Heaton

*Aelod o Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd*

Luke Murphy

*Pennaeth Comisiwn Cyfiawnder Amgylcheddol yr IPPR*

Katie White

*Cyfarwyddwr Gweithredol Eiriolaeth ac Ymgyrchoedd yn WWF-UK*

**Llywodraeth Cymru:** Ian Butler; Gareth Williams; Jane Runeckles; Jonathan Price; Tim  
Render; Liz Lalley; John Howell

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru:** Dan Bristow; Manon Roberts



# Bord gron 2

Y cais i arbenigwyr a gymerodd ran yn yr ail gyfarfod bord gron oedd cynnig cyngor ar sut i fanteisio ar newid mewn ymddygiad/ymateb y cyhoedd, o ganlyniad i'r pandemig, er mwyn hyrwyddo adferiad gwyrdd, a'r ymyriadau polisi sydd eu hangen i sicrhau adferiad gwyrdd.

## Trosolwg

Roedd cyfranogwyr yr ail gyfarfod bord gron yn gytûn, er bod llawer o'r drafodaeth bresennol am y pandemig Coronafeirws ac am ffyrdd i ddod allan o'r argyfwng presennol yn ymwneud â'r syniad o bennu 'trefn arferol newydd', fod angen canolbwyntio yn lle hynny ar baratoi at 'realiti newydd'. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried:

- Sut y gall feithrin economi gynaliadwy sy'n gwneud defnydd o asedau cymunedau lleol?
- Sut byddai'r pandemig Coronafeirws yn gallu newid patrwm y galw am ynni, a pha oblygiadau fydd o hynny o ran ble y dylid gwario i ysgogi'r economi?
- Pa fathau o brosiectau seilwaith y dylem fuddsoddi ynddynt? Pa brosiectau sy'n debygol o ddod â'r budd mwyaf i Gymru/cadw'r gwerth ychwanegol yng Nghymru?
- Pa fath o gymorth busnes y bydd ei angen yn dilyn y pandemig? Sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi busnesau gwyrdd sy'n rhan o gymunedau lleol?

Cytunwyd y bydd angen cael polisiau i ymateb i'r cwestiynau hyn sy'n adlewyrchu perthynas Cymru â gweddill y DU (h.y. y setliad datganoli a mentrau yn Lloegr) a'r UE (h.y. maint y buddsoddiad disgwylidig mewn adferiad gwyrdd gan yr UE, a sut mae hyn yn ymwneud â Chymru). Hefyd dylid seilio'r polisiau ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael, a dylent fuddsoddi mewn meysydd lle mae'r potensial mwyaf ar gyfer arloesi a manteisio ar y cyfleoedd unigryw sydd ar gael i Gymru. Bydd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn barod i flaenoriaethu: i dynnu'n ôl rai o'r ymyriadau presennol er mwyn ailgyfeirio ymdrechion a buddsoddiadau at yr ymyriadau mwyaf effeithiol ar gyfer hyrwyddo Cymru wyrddach a thecach.

Roedd consensws y bydd angen cael polisiau i hyrwyddo adferiad economaidd gwyrdd sydd hefyd yn ystyried effeithiau anghyfartal y pandemig ar ardaloedd a sectorau. Mae'n debygol y bydd twristiaeth, lletygarwch, awyrofod, diwydiant trwm a'r celfyddydau'n cael eu taro'n galed ac mae angen targedu polisiau'n ofalus i ddelio â'r anghydraddoldebau hyn, yn cynnwys ysgogiadau economaidd i greu swyddi 'gwyrdd'.

# Newid ymddygiad

Nododd cyfranogwyr y cyfarfod bord gron fod y pandemig wedi arwain at rai newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad, fel llai o ddefnydd o geir a mwy o siopa lleol.

Cafwyd cefnogaeth gynyddol cyn y pandemig Coronafeirws i gamau i ddelio â'r argyfwng newid hinsawdd. Mae'n bosibl bod y pandemig wedi gwella'r canfyddiad ymysg y cyhoedd o'r rhan y mae cyngor gwyddonol yn ei chwarae mewn delio ag argyfyngau.

Bydd yn bwysig cynnal a harneisio cefnogaeth i newid ac egluro i'r cyhoedd sut y gallant hwyluso hyn drwy eu gweithredoedd. Gwelsom gynnydd mewn siopa ar-lein a siopa lleol yng nghyfnod y cyfyngiadau symud. Os bydd llunwyr polisi yn gallu cefnogi newid parhaol i'r cyfeiriad hwn, bydd hynny'n cael effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd ac ar ganol trefi bach. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai'r unig ddymuniad gan nifer mawr o bobl fydd 'mynd yn ôl i'r drefn arferol' wrth lacio'r cyfyngiadau ac, mewn rhai achosion, gallai'r pandemig ddylanwadu ar ymddygiadau mewn ffyrdd sy'n anffafriol i adferiad gwyrdd. Er enghraifft, mae'n ymddangos yn debygol y bydd nifer mawr o deithwyr yn amharod i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus oherwydd ofnau am drosglwyddo'r feirws. Mae'n ddigon bosibl y bydd hyn yn arwain at fwy o ddefnydd o geir nag a gafwyd cyn y pandemig ac at ostyngiadau hirdymor yn refferiw trafndiaeth gyhoeddus. Bydd hyn yn ei dro yn creu anfantais i'r rheini sy'n dibynnu fwyaf ar drafndiaeth gyhoeddus ac yn cael effeithiau negyddol ar ansawdd aer ac allyriadau carbon.

Mae'n bosibl y bydd rhai'n croesawu newid parhaus i weithio o bell a gallai hyn fod o gymorth i leihau'r defnydd o geir, ond mae nifer mawr o alwedigaethau ac aelwydydd lle na fydd hyn yn ymarferol neu'n addas. Yn ogystal â hynny, byddai rhai gweithwyr yn gallu profi straen ac arwahanrwydd cymdeithasol o ganlyniad i hyn.

Felly, mae angen i'r Llywodraeth gyflawni rôl ragweithiol drwy hybu newid mewn ymddygiad wrth lacio'r cyfyngiadau. Bydd yn bwysig defnyddio'r labeli a'r termau cywir. Er enghraifft, bydd sôn am yr angen i 'uwchraddio' cartrefi yn cael gwell derbyniad na sôn am 'ôl-osod', ac mae angen darbwyllo pobl mai 'adferiad gwyrdd i chi yw hwn' er mwyn eu cymell i ddefnyddio dulliau gwresogi gwyrdd a dulliau teithio gwyrdd.

Yn ogystal â hyn, mae angen i'r Llywodraeth gefnogi newid mewn ymddygiad drwy ddarparu'r seilwaith angenrheidiol. Galwodd cyfranogwyr am fuddsoddi mewn 'seilwaith sylfaenol cyffredinol' er mwyn sicrhau bod systemau gwefru effeithlon ar gael ym mhob cymuned yn ogystal â band eang o ansawdd da. Mae'n debygol y bydd pwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus, felly wrth gynllunio gwariant ysgogi, dylid ceisio lleihau'r ddibyniaeth ar gymorthdaliadau dros amser.

# Ymatebion polisi

Roedd cyfranogwyr y cyfarfod bord gron wedi dweud bod polisïau presennol yng Nghymru, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn darparu sylfaen gadarn i sicrhau bod yr adferiad economaidd ar ôl y pandemig yn un sy'n wyrdd ac yn sensitif i anghenion pobl Cymru. Er hynny, roeddent wedi nodi bod polisïau mentrus ac uchelgeisiol gan Lywodraeth Cymru yn aml wedi profi'n anodd eu cyflawni yn y gorffennol. Wrth ddod allan o'r argyfwng presennol, bydd yn bwysig sicrhau bod bwriadau a syniadau da yn cael eu troi'n weithredu ar lawr gwlad a fydd yn hyrwyddo adferiad gwyrdd yng Nghymru.

Bydd hyn yn galw am newidiadau yn agweddau ac ymddygiad y cyhoedd ac yn y ffordd y mae'r Llywodraeth yn gweithio. Roedd natur gyflym ac arloesol ei hymateb i'r pandemig Coronafeirws yn cael ei gweld yn rhywbeth cadarnhaol y gellid manteisio arno wrth gynllunio ar gyfer adferiad economaidd gwyrdd. Fodd bynnag, bydd hyn yn galw am arweiniad effeithiol, dull o weithredu sy'n fwy cydgysylltiedig nag yn y gorffennol, a mwy o barodrwydd i achub ar y cyfleoedd mewn technoleg newydd. Roedd cyfranogwyr y cyfarfod bord gron yn dadlau y bydd angen i Lywodraeth Cymru fod yn barod i wneud rhai penderfyniadau dadleuol. Er enghraifft, er mwyn gwrthweithio'r newid disgwylidig ar ôl y pandemig o drafnidiaeth gyhoeddus i gymudo mewn ceir, mae'n bosibl y bydd angen cyflwyno cynlluniau prisio ffyrdd a chodi mwy o dâl am barcio wrth weithleoedd mewn dinasoedd.

Roedd cyfranogwyr hefyd yn dadlau bod lle i ddull mwy 'entrepreneuraidd' o weithredu a mwy o ddefnydd gan Lywodraeth Cymru o'i 'phwerau meddal'. Roeddent yn awgrymu y gellid defnyddio cymorth busnes i ysgogi newid cadarnhaol drwy dargedu busnesau gwyrdd a'i gwneud yn ofynnol i dderbynwyr cymorth fabwysiadu arferion sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd ac yn dod â budd i gymunedau lleol.

Cyfeiriwyd at brosesau caffael cyhoeddus ac addysg uwch fel dau faes arall lle gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei dylanwad i hybu adferiad economaidd gwyrdd. Eu hawgrym oedd bod angen rhoi blaenoriaeth i'r opsiwn 'gorau' wrth gaffael yn hytrach na'r opsiynau 'hawsaf neu fwyaf cyfleus', a dadleuwyd bod angen mabwysiadu diffiniad mwy pendant o werth cymdeithasol a galluogi swyddogion caffael i'w sicrhau. Dylid annog prifysgolion yng Nghymru i gefnogi technoleg newydd a dulliau arloesol sy'n ymwneud â'r agenda werdd e.e. technoleg hydrogen. Byddai dysgu ar-lein yn gallu cynnig cyfleoedd newydd i bobl hŷn ac iau sy'n ei chael yn anodd mynychu campysau a gallai helpu i leihau allyriadau carbon hefyd.

Roedd cyfranogwyr wedi tynnu sylw at nifer o wahanol gyfleoedd a buddsoddiadau y gallai llywodraeth eu defnyddio i helpu i hyrwyddo adferiad gwyrdd. Yn y tymor byr, mae'r cynnydd disgwylidig mewn gwyliau gartref yn cynnig cyfleoedd i fusnesau yng Nghymru. Yn y tymor hwy, dylai'r Llywodraeth ystyried buddsoddi yn y canlynol:

- Cynlluniau rheoli dŵr a llifogydd a all sicrhau buddion cymunedol trawsbynciol;
- Prosiectau seilwaith 'gwyrdd' mawr fel Morglawdd Hafren ac ailagor rhannau o'r rhwydwaith camlesi er mwyn creu coridorau gwyrdd a llwybrau ar gyfer teithio gwyrdd;
- Datgarboneiddio tai newydd ac uwchraddio ('ôl-osod') y stoc dai bresennol;
- Buddsoddi i hyrwyddo dulliau hyblyg lleol o gynhyrchu a storio ynni;
- Buddsoddi mewn seilwaith trosglwyddo a storio ynni (h.y. y grid) er mwyn cynhyrchu a storio mwy o drydan drwy ddulliau adnewyddadwy;
- Ailhyfforddi ac adleoli pobl ifanc sy'n colli eu swyddi o ganlyniad i'r pandemig i weithio mewn proffesiynau sy'n addas at y dyfodol fel adeiladu;
- Adfywio canol trefi – er enghraifft, addasu mannau cyhoeddus i ganiatáu i gaffis ailagor ac ailfodelu strydoedd i hybu teithio llesol;
- Newid yn gyflym i ffyrdd mwy ecogyfeillgar o ddefnyddio tir amaethyddol.

Roeddent wedi nodi bod rhai o'r opsiynau hyn yn barod i ddechrau a'i bod yn bwysig cefnogi cynlluniau gweladwy iawn sy'n helpu cymunedau lleol i weld bod 'adferiad gwyrdd' yn gweithio iddyn nhw.

Roedd cyfranogwyr hefyd wedi argymhell darparu cymorth i ailsgilio ac ailhyfforddi pobl ifanc sy'n colli eu swyddi o ganlyniad i'r dirywiad economaidd disgwylidig, i'w paratoi at weithgareddau sy'n hyrwyddo economi werdd a sgiliau a thechnoleg ddigidol.

## Ymatebion lleol, pobl yn gyntaf sydd o fudd i'r gymuned

Roedd cytundeb y bydd y pandemig Coronafeirws yn effeithio i wahanol raddau ar wahanol grwpiau ledled Cymru. Roedd cyfranogwyr yn dadlau bod angen dulliau cyfannol o weithredu, wedi'u haddasu yn ôl yr anghenion a'r cyfleoedd sydd gan wahanol grwpiau a chymunedau lleol, yn hytrach nag edrych ar ymatebion polisi posibl o safbwynt cyfrifoldebau a chylchoedd gwaith y gwahanol adrannau mewn llywodraeth.

Er enghraifft, os mai un o effeithiau hirdymor y pandemig fydd newid at fwy o weithio o bell, bydd hyn yn cael effeithiau anghyfartal ar wahanol grwpiau a sectorau yn yr economi a bydd yn galw am ddulliau newydd o weithredu mewn nifer o feysydd polisi. Fel y nodwyd, gallai arwain at lai o gymudo, ond bydd hyn yn cael effeithiau canlyniadol nid yn unig o ran y defnydd o geir ond hefyd o ran y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a'i reffeniw. Mae nifer mawr o aelwydydd lle nad yw'r amodau'n addas ar hyn o bryd ar gyfer gweithio o bell a gallem weld newidiadau yn nyluniad cartrefi newydd gyda mwy o ofod modiwlaid, hyblyg ac

addasadwy. Mae'n bosibl y bydd mwy o alw hefyd am ganolfannau cymunedol yng nghanol trefi a phentrefi sy'n hwyluso gweithio o bell yn agos i'r cartref yn hytrach nag yn y cartref.

Byddai cynnydd parhaus mewn gweithio o bell yn cael effeithiau negyddol hefyd ar fusnesau yng nghanol dinasoedd sy'n dibynnu ar wariant gan gymudwyr a gallai hyn wanhau'r farchnad eiddo masnachol mewn trefi a dinasoedd. Mae'n bosibl y bydd angen am ddatblygu strategaethau gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a busnesau ar gyfer ailddefnyddio neu adnewyddu swyddfeydd gwag.

Roedd cyfranogwyr yn dadlau ei bod yn bwysig ystyried dulliau adfer gwyrdd sy'n cael effaith gadarnhaol ac uniongyrchol ar y gymuned leol. Ym marn un cyfranogwr, mae'n bosibl nad yw prosiectau ynni adnewyddadwy mawr yn dod â buddion cadarnhaol uniongyrchol i'r cymunedau lle gosodwyd y seilwaith. Felly, mae'n bwysig cefnogi gweithgynhyrchwyr a chadwyni cyflenwi sydd wedi'u lleoli yng Nghymru fel bod effaith hirdymor y gwerth ychwanegol yn cael ei themlo yma.

Barnwyd hefyd ei bod yn bwysig cynyddu'r ymdeimlad o alluedd cymunedol. Nododd cyfranogwyr y byddai hyn yn gallu helpu i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y dywedwyd eu bod heb ennill tir yn rhannol oherwydd y dull gweithredu o'r brig i lawr sydd wedi'i fabwysiadu hyd yn hyn. Bydd yn bwysig adnabod a chydweithio â'r dylanwadwyr mewn cymunedau a deall sut mae newid yn digwydd ym mhob lle.

# Cyfranogwyr

**Cadeirydd:** Jeremy Miles

*Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru*  
(yn gyfrifol am waith adfer at y dyfodol)

**Yr arbenigwyr a gymerodd ran:**

Nigel Annett

*Sefydliad Cymunedol yng Nghymru*

Steve Brooks

*Sustrans*

Alex Meredith

*Innogy*

Auriol Miller

*Sefydliad Materion Cymreig*

Carole-Anne Davies

*Comisiwn Dylunio Cymru*

Yr Athro Iwan Davies

*Prifysgol Bangor*

Max Munday

*Prifysgol Caerdydd*

Debbie Green

*Grŵp Tai Arfordirol*

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru:** Steve Martin; Jack Price; Manon Roberts

## Manylion yr Awduron

Mae **Dan Bristow** yn Gyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac yn arwain ei gwaith ar ddefnyddio gwybodaeth a meithrin gallu.

Mae **Manon Roberts** yn Ymchwilydd Cyswllt yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Mae'n gweithio ym maes cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb.

Mae **Jack Price** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Mae'n gweithio ar raglenni'r Ganolfan ar gyfer Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Dan Bristow**

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

[info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)

**OGL** Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored